

### **IGFM005-TEMPLED HYSBYSIAD PREIFATRWYDD**

Mae geiriad y ddogfen hon yn adlewyrchu gofynion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) sydd mewn grym o 25ain Mai 2018.

<b>Maes Gwasanaeth CBST:</b>	Addysg
<b>Maes gwaith:</b>	Y Blynyddoedd Cynnar
<b>Manylion Cyswllt</b>	Hannah Bedford
<b>Enw Hysbysiad Preifatrwydd:</b>	Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen

**NODWCH:** Mae geiriad y ddogfen hon yn adlewyrchu gofynion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC), a ddaw i rym yn y DU ar 25 Mai 2018.

#### **Rheolwr Data:**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**  
**d/o Y Ganolfan Ddinesig**  
**Pont-y-pŵl**  
**NP4 6YB**

#### **Swyddog Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth:**

**Susan Bullock**  
**01633 647467**  
**E-bost: [dpa@torfaen.gov.uk](mailto:dpa@torfaen.gov.uk)**

Mae'r Cyngor yn casglu ac yn prosesu data personol mewn perthynas â'i drigolion ac mae wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ynglŷn â sut y mae'n casglu ac yn defnyddio'r data hwnnw, ac i gwrdd â'i rwymedigaethau diogelu data.

#### **Sut yr ydym yn cael eich gwybodaeth bersonol**

Rydym yn cael eich data personol yn uniongyrchol oddi wrthy ch chi a sefydliadau eraill.

#### **Pa wybodaeth ydy'r Cyngor yn ei chasglu?**

Mae'r Cyngor yn casglu ac yn prosesu amrywiaeth o wybodaeth ynglŷn â chi. Mae hyn yn cynnwys:

- Oedran y Plentyn
- Manylion Cyswllt
- Rhyw
- Enw Rhieni/Gofalwyr/Gwarcheidwad
- Cyfeiriad Rhieni/Gofalwyr/Gwarcheidwad

### **Gall y Cyngor gasglu'r wybodaeth yma mewn amrywiaeth o ffyrdd:**

- Ffurflen Estyn Allan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen 'Sut allwn ni eich helpu'
- Ar lafar ar y ffôn
- Atgyfeiriad trwy e-bost
- Negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol
- Trwy wasanaeth galw i mewn yng Nghanolfan Integredig i Blant Cwmbrân
- Trwy atgyfeiriad oddi wrth sefydliadau eraill

### **Byddwn yn storio eich data:**

- Mae data'n cael ei fewnosod i fas data diogel Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n cydymffurfio â RhDDC.
- Mae pob ffurflen Estyn Allan yn cael ei rhwygo'n ddiogel
- Diweddariadau darparwyr (cofnodion gwybodaeth ar y bas data e.e. lleoliadau gofal plant) system ffeilio papur

### **Pam fod y Cyngor yn prosesu eich data personol?**

Mae angen i'r Cyngor brosesu data i allu darparu gwasanaeth statudol i gwrdd â'ch gofynion unigol chi a gofynion eich teulu e.e. i brosesu ceisiadau am wybodaeth trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Ceir ceisiadau trwy'r ffôn, e-bost, cyfryngau cymdeithasol, estyn allan a galw i mewn. Mae gwybodaeth yn cael ei chyfuno o'n bas data sy'n cydymffurfio a RhDDC, mae'n cael ei hargraffu a'i danfon trwy'r post neu ei hatodi wrth e-bost.

Trwy gasglu eich data gallwn gynyddu gallu Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i gydlynu asesiadau a chefnogaeth ar draws asiantaethau er mwyn rhoi ymateb mwy diasiad i'ch anghenion a sicrhau eich bod yn elwa o'r ymyraethau a'r gwasanaethau amrywiol sy'n cael eu cynnig. Mae defnyddwyr hefyd yn cael dewis bod eu gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n ddiennw.

Mae eich data hefyd yn cael ei ddefnyddio i fonitro mesurau perfformiad ar gyfer Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen.

### **Categoriâu Arbennig o ddata personol:**

- Gwybodaeth am anabledde ac iechyd ynglŷn â chi a'ch plentyn fel sy'n berthnasol i'r gwasanaeth

## **Gallwn brosesu'r categori data yma oherwydd:**

Mae'r sawl sy'n destun y data wedi rhoi caniatâd diamwys.

Mae prosesu'r categorïau arbennig uchod o ddata yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn cael ei addasu i gwrdd ag anghenion unigol yn unol â'r gwasanaeth statudol.

Mae'r data yma hefyd yn ein galluogi i adrodd ar agweddau'r o'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Wrth adrodd, mae'r data'n cael ei droi'n ddiennw.

## **Pwy sy'n gallu gweld eich data?**

Gall eich gwybodaeth gael ei rhannu'n fewnol gyda gwasanaethau trydydd partiön perthnasol er mwyn prosesu eich cais ar gyfer anghenion unigol eich teulu. Mae'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi i ni yn cael ei chadw mewn bas data i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a gomisiynwyd gan DEWIS Cymru.

Mae'r Cyngor yn rhannu eich data er mwyn adrodd am y gwasanaeth. Mewn achosion felly, mae'r data'n cael ei droi'n ddiennw.

## **Sut mae'r Cyngor yn diogelu data?**

Mae'r Cyngor yn cymryd diogelwch eich data o ddifri. Mae gan y Cyngor bolisïau mewnol mewn grym i geisio sicrhau nad yw'r data y mae'n ei brosesu yn cael ei golli, ei ddinistrio'n fwriadol, yn cael ei gamddefnyddio neu ei ddatgelu, ac nid oes neb yn ei weld ac eithrio cyflogeion gyflawni'u dyletswyddau. Y polisïau sy'n sicrhau hyn yw'r Polisi Diogelu Data ymhlith eraill.

Pan fo'r Cyngor yn cyflogi trydydd partiön i brosesu data personol ar ei ran, maen nhw'n gwneud hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig, mae ganddyn nhw ddyletswydd cyfrinachedd hefyd ac mae'n rhaid iddyn nhw weithredu mesurau priodol i sicrhau diogelwch data.

## **Am ba mor hir mae'r Cyngor yn cadw eich data?**

Bydd y Cyngor yn cadw eich data personol dim ond am gyhyd ag sydd yn angenrheidiol a bydd yn dilyn safonau trefniadol ac Awdurdod Lleol yn y maes hwn.

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth am 12 mis.

## **Eich hawliau**

- Mae gennych nifer o hawliau y gallwch eu harfer:
- gweld a chael copi o'ch data ar gais
- mynnu bod y Cyngor yn newid data anghywir neu anghyflawn
- mewn rhai amgylchiadau penodol gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu neu beidio â phrosesu eich data, er enghraifft os nad yw'r data bellach yn angenrheidiol at ddibenion prosesu
- cael gwybod y cyfnod amser y bydd y data'n cael ei gadw
- yr hawl i hygludedd data
- yr hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg
- yr hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwyllo (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)
- canlyniadau eich bod yn methu darparu data i'r Cyngor
- bodolaeth penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio a goblygiadau hyn i chi.
- Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau yma, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Hwb Blynyddoedd Cynnar

[earlyyearsABSHub2@torfaen.gov.uk](mailto:earlyyearsABSHub2@torfaen.gov.uk)

01495 742101